**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

1 Rhagfyr 2017

Annwyl Kirsty

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

<u>Y cefndir</u>

Diolch ichi am ddod i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 16 Tachwedd i drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Cyn y cyfarfod, gofynnodd y Pwyllgor am ystod o wybodaeth am y rhannau hynny o'r gyllideb yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt ac sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Gwnaethoch ddarparu papur, dyddiedig 8 Tachwedd, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ynghyd â'r agenda a'r papurau eraill ar gyfer ein cyfarfod ar 16 Tachwedd.

Ar yr achlysur hwn, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu peidio â chyflwyno adroddiad ffurfiol ar y gyllideb i'r Cynulliad ond serch hynny, byddai'n ddiolchgar o gael ymateb gennych i'r pwyntiau a nodir isod. Byddwn yn cyhoeddi eich ymateb a byddai'n ddefnyddiol pe gallech ei ddarparu cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol, a gynhelir ym mis Ionawr yn ôl yr hyn a ddeallaf.

<u>Materion Penodol</u>

*Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau*

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith eich bod yn cydnabod pa mor bwysig yw'r manteision ehangach a ddaw yn sgil celfyddyd a cherddoriaeth mewn addysg plant a'r ffaith bod cyllid yn parhau i fod ar gael drwy'r rhaglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau. Gwnaethoch sôn yn benodol am elfen o'r rhaglen o'r enw 'Ewch i Weld', gan gynnig darparu dadansoddiad o nifer yr ysgolion a phlant sydd wedi cymryd rhan yn ôl ardal awdurdod lleol.

*Menter Cerddoriaeth mewn Ysgolion*

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r cyllid ychwanegol o £1 miliwn bob blwyddyn am y ddwy flynedd nesaf ar gyfer mentrau cerddoriaeth mewn ysgolion. Gwnaethom nodi eich bod yn dal i ystyried sut y gellid defnyddio'r cyllid hwn a'ch bod yn gobeithio manteisio ar dystiolaeth o'r adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor

yn y maes hwn. Er bod hyn i'w groesawu, byddai'n galonogol gwybod a oes gan y Llywodraeth ei hun unrhyw fwriad penodol ar gyfer y cyllid hwn? Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar o gael gwybod a ydych yn bwriadu ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid ar ffyrdd posibl o ddefnyddio'r cyllid, a byddai'n canmol dilyn y trywydd hwnnw os felly.

*Cronfa ddata o Offerynnau Cerddorol*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y grŵp gorchwyl a gorffen cerddoriaeth wedi argymell y dylid sefydlu cronfa ddata o offerynnau cerdd. Ers hynny, rydym wedi cael tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n awgrymu y gellid bodloni nodau'r syniad o gronfa ddata drwy fuddsoddi llai o gyllid. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym y byddai angen talu costau sefydlu sylweddol a defnyddio llawer o adnoddau yn barhaus i gynnal y syniad hwnnw, a bod yna sianelau cyfathrebu eisoes wedi'u sefydlu rhwng awdurdodau sy'n galluogi gwasanaethau cerdd i ofyn am gymorth wrth gael gafael ar offerynnau cerddorol o ardal awdurdod lleol arall.

Awgrymodd y byddai'n fwy buddiol defnyddio'r cyllid ychwanegol mewn ffyrdd eraill a allai sicrhau gwaddol mwy hirdymor, yn hytrach na phrynu offerynnau newydd. Gallai hyn gynnwys cynnal a chadw'r offerynnau a brynwyd eisoes. Gwnaethoch egluro na chodwyd y pryderon hyn gyda chi mewn trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi unrhyw syniadau pellach sydd gennych yn y maes hwn.

*Codi Arian – Ensembles Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gronfa Gwaddol Cerddoriaeth*

Soniodd yr Aelodau am y posibilrwydd o ddryswch rhwng cyfleoedd i godi arian ar gyfer Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gronfa Gwaddol Cerddoriaeth. Cyhoeddwyd y Gwaddol yn gynharach eleni â chyllid o £1 miliwn a gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'n cael ei lansio'n ffurfiol gyda'r Cyngor Celfyddydau ym mis Ionawr. Fodd bynnag, o ystyried y pryderon hyn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech fyfyrio ymhellach ar y mater hwn a sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw bosibilrwydd o ddryswch.

Yn gywir



**Siân Gwenllian AC**
Cadeirydd Dros Dro